# DINESYDD

PAPUR CYMRAEG CAERDYDD A'R CYLCH

RHIF 139

HYDREF 1987


# Galw am Siarter

Penderfynwyd yn unfrydol mewn cyfarfod cyhoeddus diweddar a gynhaliwyd yng Nghlwb Ifor Bach Heol Womanby y dylid paratoi siarter yn amlinellu prif ofynion Cymry Cymraeg y Brifddinas. Lansiwyd yr ymgyrch o dan yr enw 'Dinasyddion Caerdydd' er mwyn ceisio gwella statws yr iaith Gymraeg o fewn Cyngor Dinas Caerdydd.

Dyma fyddai prif bwyntiau'r siarter:

a) Prif arwyddion a ffurflenni y Cyngor i gynnwys y Gymraeg

b) Unrhyw ohebiaeth Cymraeg a'r Cyngor i'w hateb yn Gymraeg

c) Dylai'r Cyngor sicrhau digon o Staff i weithredu polisi dwyieithog, gan gynnwys sicrhau bod nifer ohonynt a chymysterau yn y Gymraeg

ch) Mabwysiadu enwau strydoedd Cymraeg

d) Annog datblygwyr a busnesau sydd yn ymsefydlu yn y Brifddinas i barchu statws y Gymraeg.

Yn hytrach na chyflwyno'r siarter yn syth, penderfynwyd cael cyfnod o ymgynghori a'r Cynghorwyr ac a Chymry Cymraeg y Brifddinas. Y nod yn ol Sylfaenydd y Grwp, Mr. Owen John Thomas, yw ceisio cael cefnogaeth eang i'r ymgyrch. Croesewir unrhyw sylw am bwyntiau'r siarter - anfonwch at Mr. Thomas, d/o Clwb Ifor Bach.

Y si ar led yw y daw datganiad oddi wrth Peter Walker o fewn y chwe mis nesaf ynglyn a Deddf Iaith Newydd. Ofnir na fydd yr hyn y bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn ei gynnig yn ddigonol i sefydlu polisi llawn dwyieithog o fewn awdurdodau cyhoeddus. Felly gwelir ymgyrch 'Dinasyddion Caerdydd' fel un hollbwysig. Dyma'r tro cyntaf i siarter o'r fath gael ei pharatoi mewn ardal nad ystyrir hi'n ardal Gymraeg.

Pwysleisia Owen John Thomas fod angen i'r Cyngor sylweddoli statws arbennig Caerdydd fel Prifddinas Cymru. Mae nifer y siaradwyr Cymraeg wedi cynyddu yn aruthrol o fewn y degawd diwethaf, yn enwedig nifer y plant sy'n derbyn addysg trwy gyfrwng y Gymraeg. "Mae'n rhaid iddyn nhw", meddai, "newid eu hagwedd a chyflwyno statws lawn i'r Gymraeg, yn enwedig o gofio nifer y cwmniau Cymraeg sydd wedi ymsefydlu yng Nghaerdydd. "Rydym yn dod a miloedd o bunnoedd iddyn nhw . Ni ellid gwerthu Caerdydd fel 'Media City' heblaw'r ffaith fod S4C yn bodoli a fuasai honno ddim yn bodoli heblaw am yr iaith Gymraeg".

Ansicr ydym ar hyn o bryd sut ymateb a ddaw o du'r Cyngor i'r Siarter. Credir y bydd nifer o'r Cynghorwyr yn fodlon bod yn gefnogol i'r alwad ond mae llwyddiant yn mynd i ddibynnu i raddau helaeth ar faint y gefnogaeth a ddaw o du'r Cymry Cymraeg sy'n byw yn y Brifddinas. Y gobaith yw y bydd mudiadau, capeli a chwmniau Cymraeg y Brifddinas, yn ogystal ag unigolion, yn datgan eu cefnogaeth.

## Toris ar y Carpad

'Cipio'r Carped' nid 'Cipio'r Castell' yw'r stori fydd plant bach Cylch Meithrin Radur yn ei chlywed y dyddiau hyn.

Fe gawson nhw garped hyfryd gwerth £150 yn rhodd gan deulu caredig o Landaf er mwyn iddyn nhw gael osgoieistedd ar hen lawr oer a bawlyd y neuadd. Am un bore fe gwson nhw fwynhau eistedd a rholian ar y carped moethus.

Trannoeth roedd hi'n ddydd Sadwrn - dim Cylch Meithrin yn y neuadd ond Ffair Sborion y Toriaid lleol.

Bore Llun - Cylch Meithrin fel arfer ond Och! - Ble roedd y carped newydd? - doedd dim son amdano! Wedi diflannu'n llwyr! Ai carped hud oedd e wedi'r cwbl?

O nage, nage! Rhyw hen Dori twp werthodd garped y Cylch Meithrin am wyth bunt i brynwr anhysbys oedd a llygad am fargen dda!

Ydy, mae'r mwg yn las tua Radur 'na a synnwn i fawr nad oes 'na ambell i wyneb coch ymhlith gleision Ceidwadwyr y pentre!





Criw 'Lle Mynno'r Gwynt' yn Y Sherman y mis hwn.

# GAIR O'R POST

7, Melrose Ave.,
Penylan,
CAERDYDD.

Annwyl Gyfeillion,

Bum mewn gohebiaeth gyda Adran Trysorydd y Ddinas cyn talu'r trethi eleni. Rwyf yn cael y bil yn ddwyieithog er mai wedi cael ei ysgrifennu y mae'r ochr Gymraeg ambell waith. Rwy'n talu trwy Archeb Banc, ac eleni gwrthodwyd Archeb Banc dwyieithog. Cawn lenwi un Saesneg mewn Cymraeg a'i anfon i'r Banc felly ni fyddai yn mynd i Adran Trysorydd y Ddinas.

Ar Orffennaf 15fed anfonais gopi o ddwy Archeb dwyieithog atynt a gofyn yn garedig a gawn archeb ddwyieithog neu Gymraeg y flwyddyn nesaf. Dyma'r ateb a gefais :

"I would confirm that the Council does not provide a bilingual Standing Order Form.

The question of providing various documents in Welsh is considered from time to time but at present, only the official rate demand note is provided in Welsh for some 200 households. Of those numbers, only a small percentage currently take up the option of paying by monthly instalments.

I hope you will appreciate that at a time of increasing finanacial constraints on Local Authority spending, the printing cost of such a small number would be prohibitive".

Arwyddwyd gan Drysorydd y Ddinas.

Cofiaf frwydr i gael y bil trethi yn Gymraeg flynyddoedd yn ôl; a ydym yn colli y frwydr oherwydd nad ydym yn gofyn. Beth am anfon llythyr yn gofyn am fersiwn ddwyieithog yn ddigon buan cyn i'r biliau nesaf gael eu hargraffu.

Yn gywir,

NANS JONES.

---

## PWYLLGOR DATHLU PEDWARCANMLWYDDIANT CYFIEITHU'R BEIBL

Annwyl Olygydd,

Mae amryw o sefydliadau a chymdeithasau'n paratoi i ddathlu pedwarcanmlwyddiant cyfieithu'r Beibl i'r Gymraeg y flwyddyn nesaf. Y mae'r Pwyllgor Cenedlaethol, sy'n ceisio cydweithio â phawb sy'n ymgymryd a'r dathlu mewn unrhyw fodd, yn awyddus i gasglu gwybodaeth am y gweithgareddau hyn. Byddwn yn ddiolchgar iawn pe bai unrhyw gorff sy'n trefnu gweithgarwch i gofio am yr Esgob William Morgan a'i orchwest yn anfon gair ataf fi, Ysgrifennydd y Pwyllgor Dathlu, i'r Llyfrgell Genedlaethol, Aberystwyth.

Yn gywir,

BRYNLEY F. Roberts.
Ysgrifennydd y Pwyllgor Dathlu



## CYFRES NEWYDD HYWEL GWYNFRYN AR S4C

Bydd Hywel Gwynfryn nôl yn fyw ar y sgrin ar S4C ar nos Sul gan gychwyn ar Hydref 4.

Ymysg ei westeion, fe fydd cymysgedd o sêr cyfarwydd a rhai llai cyfarwydd, gyda chyfle i chi eu holi yn fyw ar yr awyr.

Oes gynnoch chi hobi neu job anarferol? Ydych chi wedi cyflawni camp hynod neu ryfeddol? Ydych chi'n perthyn i griw sy'n trefnu digwyddiadau anghyffredin? Os felly, cysylltwch a Hywel nawr!

Yn ogystal, mae angen cynulleidfaoedd amrywiol, brwdfrydig a bywiog. Os carech chi ddod i'r stiwdio, danfonwch air at :
Rhaglen Hywel Gwynfryn,
Ystafell 132 Gabalfa,
BBC Cymru,
Llandaf,
Caerdydd. CF5 2YQ

---

Llanddwyn,
Pwlltrap,
San Clêr,
Dyfed.

(Ffon: 0994 230121)

Annwyl Cyd-Gymry,

Mae'n siwr eich bod chwithau fel minnau yn dyheu am weld heddwch yn teyrnasu yn ein byd. Dileu arfau niwcliar. Mwy o gyd-weithredu rhwng y pwerau mawr. Ymddiriedaeth rhwng y Gorllewin a'r Dwyrain. Adnoddau ar gael i gynorthwyo y trueiniaid hynny sy'n byw a marw gan wynebu newyn a thlodi yn y gwledydd sy'n datblygu.

Yr unig fodd i sicrhau fod y freuddwyd yn troi'n ffaith yw trwy gefnogi'r mudiad heddwch yng Nghymru. A gaf fi fod mor hy ag awgrymu taw'r peth lleiaf y gellir ei wneud dros heddwch yng Nghymru yw ymuno ag CND Cymru.

Y mae Cymru Ddi-Niwcliar yn ysbrydoliaeth i'r mudiad heddwch drwy'r byd. Gwahoddaf chwi i ymuno gyda ni i greu realiti o'r egwyddor honno.


Gellir ymaelodi trwy anfon siec o £9 ynghyd â'ch enw â'ch cyfeiriad i CND Cymru, 2, Plasturton Avenue, CAERDYDD. CF1 9HH.

Y mae eich angen ar y mudiad, ac y mae angen y mudiad ar Gymru a'r byd.

Yn gwyir,

Rhodri Glyn Thomas.
Cadeirydd CND Cymru.

Os am
DIWNIWR PIANO
Cysyllter â
Hefin Tomos,
16 Llys Teilo Sant
Y Rhath
Caerdydd
Ffôn 484816



## Y GWYNT YN TROI YNG NGWENT

Ysgrifennaf y nodyn hwn cyn i Gyngor Sir Gwent gadarnhau'r penderfyniad, ond daeth newyddion da i'r Eisteddfod Genedlaethol yn gyffredinol ac i weithwyr Eisteddfod Genedlaethol Casnewydd yn benodol yr wythnos hon wrth i'r Pwyllgor Polisi argymell bod Gwent yn cyfrannu'n ariannol tuag at yr Wyl y flwyddyn nesaf.

O gael ei chadarnhau, fe fydd y weithred hon yn gam pwysig mewn mwy nag un ystyr. Fe fydd yr arian yn gymorth mawr, wrth gwrs, ond pwysicach efallai yw'r ffaith y bydd Gwent, y sir mwyaf Seisnig ei hiaith, yn ymuno a Gwynedd, Dyfed, Clwyd, Powys, Gorllewin a De Morgannwg yn ei chefnogaeth o Brifwyl y Cymry.

Trwy hyn fe aiff yr Eisteddfod yn fwy 'Cenedlaethol' a Gwent yn fwy 'Cymraeg'.

Un sir sydd ar ôl bellach.

Emyr Jenkins,
Cyfarwyddwr.

---

Mewn ymateb i lythyr ymddangosodd yn 'Sbec' yn holi am 'Sgrabl' yn y Gymraeg, derbyniodd Mallt y llythyr canlynol :

"Annwyl Mallt,

Rwyf wedi creu ffurf ar y gem yn y Gymraeg, trwy greu set o lythrennau i gydfynd a bwrdd Sgrabl allan o flociau bach o bren. Cymerodd amser imi ddadansoddi dosbarthiad y llythrennau a'r marciau. Os yw o fudd i'ch darllenwyr, dyma ganlyniad f'ymdrechion :

| Llythyren | Sgor | Nifer y blociau |
|---|---|---|
| A | 1 | 10 |
| B | 4 | 2 |
| C | 1 | 5 |
| CH | 5 | 2 |
| D | 2 | 4 |
| DD | 5 | 2 |
| E | 1 | 7 |
| F | 4 | 2 |
| FF | 6 | 1 |
| G | 2 | 4 |
| Ng | 8 | 1 |
| H | 4 | 2 |
| I | 1 | 5 |
| J | 10 | 1 |
| L | 2 | 3 |
| LL | 5 | 2 |
| M | 2 | 4 |
| N | 2 | 4 |
| O | 1 | 7 |
| P | 4 | 2 |
| Ph | 8 | 1 |
| R | 1 | 5 |
| Rh | 6 | 1 |
| S | 4 | 2 |
| T | 4 | 2 |
| Th | 8 | 1 |
| U | 4 | 2 |
| W | 1 | 7 |
| Y | 4 | 2 |

Caniateir unrhyw dreigliad a gall cyfuniad o lythrenau sengl greu'r llythrennau dwbwl, megis 'LL' neu 'NG'.

Hwyl Fawr,

Eric Phillips,
19 Heol Gowermont,
Llansaint,
Cydweli, Dyfed.

# Beibl William Morgan

Fis Tachwedd eleni y bydd yr arwydd cyntaf o ddathlu pedwar-canmlwyddiant cyfieithiad yr Esgob William Morgan o'r Beibl ym 1988. Dyna pryd y bydd y ffacsimili o Feibl 1588 yn cael ei gyhoeddi gan y Llyfrgell Genedlaethol. Mae'n rhyfedd meddwl er cymaint ein parch at yr Esgob na fu'n bosibl hyd yn awr inni ddarllen ei gyfieithiad ef yn union fel yr ysgrifennodd ef y trosiad.

Mae'r ffacsimili'n llyfr hardd ac yn gampwaith o argraffu gofalus a phan fydd yn ein dwylo gallwn ddechrau deall yr iâs a deimlodd Cymry oes Elisabeth wrth weld y Beibl yn y Gymraeg am y tro cyntaf.

Pum cant o gopiau a argraffwyd, am £60 yr un. Deallwn fod yn agos i 400 eisoes wedi'u harchebu a hynny bedwar mis cyn y dyddiad cyhoeddi - argoel dda o frwdfrydedd y dathlu ym 1988.

Dr. Brynley F. Roberts.

**Arddangosfa o Feibl William Morgan**

**Chwefror 24 - 9 Mawrth 1988**
**Eglwys Gadeiriol Llandaf**

**Manylion y Gystadleuaeth**

Y thema ar gyfer yr holl gystadlaethau fydd "William Morgan, ei fywyd a'i waith". Gellir cynhyrchu gwaith yn Gymraeg a/neu yn Saesneg. Bydd y cystadlaethau i gyd yn agored i'r oedrannau canlynol:

A. Babanod-hyd at 7 mlwydd oed.

B. Cynradd - 7-11

C. Uwchradd - 11-14

CH. Uwchradd - 14+

Bydd gwaith y goreuon a'r enillwyr yn cael ei arddangos yn yr Eglwys Gadeiriol. Rhaid anfon yr holl geisiadau at Mr. J.N. Hughes, d/o Ysgol Uwchradd Esgob Llandaf, Clôs Rockwood, Caerdydd, CF5 2NR, erbyn diwedd Ionawr 1988.

A fyddech mor garedig ag anfon manylion y ceisiadau i'r cyfeiriad uchod erbyn Hydref 23 (Hanner Tymor). Dylai pob darn o waith gynnwys y manylion canlynol:

a. Enw a chyfeiriad yr ysgol.
b. Enw'r unigolyn neu'r grŵp.
c. Rhif yr Adran.
ch. Catagori oed.

Gellir casglu'r eitemau ar ôl yr arddangosfa.

**Gwahanol Adrannau'r Gystadleuaeth**

1 Murlun - unrhyw gyfrwng.
2 Cywaith.
3 Cynllun stamp - ar bapur A4.
4 Cynllun Medal/Darn o arian - y cynllun i fod 6" mewn diamedr.
5 Cynllun ffenest liw - ar bapur A3 ffenest o unrhyw ffurf.
6 Poster ar gyfer yr arddangosfa:

(a)A4 mewn du a gwyn.
(b)A3 mewn lliw.

Mae'n rhaid i bob poster gynnwys y manylion canlynol:

Y teitl - Arddangosfa o Feibl William Morgan Bible Exhibition

Y dyddiad - Chwefror 24-9 Mawrth

Lleoliad - Eglwys Gadeiriol Llandaf

7 Bathodyn yr arddangosfa - cynllun i fod o fewn cylch 2" mewn diamedr. Efallai bydd bathodyn yr enillydd yn cael ei atgynhyrchu a'i werthu er mwyn hysbysebu'r arddangosfa.
8 Darn o farddoniaeth - yn Gymraeg neu Saesneg.
9 Traethawd/Ysgrif/Ysgrifennu Creadigol - yn Gymraeg neu Saesneg.
10 Adran Dylunio - dylunio a/neu wneud gwrthrych i ddathlu'r arddangosfa yn Eglwys Gadeiriol Llandaf.


celtic asset management ltd.

**RHEOLWYR ANNIBYNNOL MEWN BUDDSODDIADAU AC ASEDAU PERSONOL. ARBENIGWYR MEWN CRONFEYDD BUDDSODDI. DELWYR TRWYDDEDIG MEWN GWARANNAU.**

**'Nawr mewn Swyddfeydd newydd - ers Awst laf 1987,**

**TY PENHILL, 11/13 HEOL PENHILL, CAERDYDD**
**CF1 9UP**
**Ffon: 394021/4 Fax: 383803**

**I ddathlu'r symud byddwn, hyd at Hydref 31ain yn cynnig bonws i'r sawl sydd yn buddsoddi mewn cronfeydd buddsoddi heb gyngor manwl ac heb wasanaeth gefnogol; naill ai fel bonws i'r buddsoddwr neu fel cyfraniad i elusen o ddewis y buddsoddwr e.e. Yr Urdd, Y Dinesydd, Mudiad Ysgolion Meithrin etc.**

**Am fanylion pellach cysylltwch a Dafydd Hampson-Jones neu Peter Cardinali.**


# BWTH RUTH



Wel helo pa hwyl sydd?

Ble mae eich Cymru chi?
Pwy ydi'ch Cymry chi?

Dyna'r cwestiynau fu'n corddi yn fy mhen ag hefo mi am ddyddiau lawer wedi i mi gael clywed Jan Morris a'r Dr. Glyn Tegai Hughes yn son am eu Cymru nhw. Traethu oedden nhw yn yr Hen Goleg yn Aberystwyth pan fu'r Academi Gymreig yn cynadledda hefo pobol o wledydd yr ieithoedd lleiafrifol.

"Mae Cymry yn bopeth" meddai Jan Morris "yn hydlwyth, yn gariadus ag yn bopeth sy'n ymwneud a 'meistri' ond mae'n wlad wedi ei phoenydio". Aeth ymlaen i'n brolio ni fel gwlad ag fel pobl. Soniodd am agosrwydd nerthol Lloegr a sut mae hynny yn boenedigaeth arnom ni gan nad oes yr un man yng Nghymru fach dros gan milltir oddiyno.

'Poenedigaeth' oedd gair mawr Jan Morris - cysylltodd hyn a'r iaith - dim ond un rhan o bump ohonom sy'n ei medru. Soniodd fel mae'n bosib i boededigaeth droi yn gyffyr adfywio er mwyn ennyn hunan-barch fel lleiafrif.

Os mai poenedigaeth oedd gair mawr Jan Morris - bygythiad - dyna air a thema darlith Dr. Glyn Tegai Hughes. Soniodd am fygythiadau'r gorffennol arnom a sut mae lleisiau gormesol a dylanwadol heddiw yn dod o Loegr. Dywedodd fod yna fwy o ddarllenwyr y Sun yng Nghymru nag sydd o ddarllenwyr y Western Mail, a bod dilyniant Cymry i'r Eastenders yn fwy nag i unrhyw 'soap' Cymraeg.

O glywed ffeithiau a darlithoedd fel hyn tybed sut ddarlun oedd y Slavs a'r Basgiaid a'r lleill o wledydd ieithoedd lleiafrifol yn ei gael ohonom ni - a tybed faint o wahaniaeth sydd yna rhwng eu gormes nhw a'n gormes ni.

Mi es i ati wedyn i feddwl am y ddau gwestiwn ar ddechrau'r llith yma. Oes mae gen i mhobol i yn fy Nghymru i - pwy ydi'ch rhai chi?

Ble mae Nghymru i? Ar ddiwrnod tywyll ag oer yn y gaeaf mi fyddai'n dwyn sawl man i gof - Rhosili, Ynys Llanddwyn, Uwchmynydd, y gamlas rhwng Gilwern a Talybont ar Wysg, Parc y Rhath ag un ardal o Gaerdydd sydd wedi newid dim mewn deugain mlynedd - yno byddai nhaid yn mynd a fi pan yn ddim o beth - dwy geiniog ar fws o North Road ag o fewn chwarter awr mi fyddwn i yn drochi mewn afon fach sy'n llifo i lawr o'r Wenallt! Wyddoch chi amdano?
O.N. Madam Golygydd. Tybed oes gan ambell ddarllenydd hoff lecyn y byddai yn fodlon rhannu hefo ni?


Gwersi piano, theorie a phib

Mrs. Almut Davies - L.R.A.M
61, Oakfield Street
Y Rhath

Ffôn: 488399

Cysylltwch o fis Awst ymlaen

# LLONGYFARCH

Llongyfarchiadau lawer i Mari Emlyn, merch Shân ac Owen, ac Emyr, mab Aled a Nest Roberts, Y Felinheli ar eu dyweddiad. Peiriannydd Sifil gyda Chyngor Sir Gwynedd yw Emyr a mae Mari, wrth gwrs, yn brysur gwneud enw iddi hun fel actores. Yn ôl yr hanes bu dathliad hapus iawn yn y Gogledd ar achlysur cyhoeddiad a'r ddau deulu wrth eu bodd. Ein dymuniadau gorau i'r ddau.

Llongyfarchiadau i Caren, merch Merfyn a Marian Jones Sain Ffagan, a Gwyn Jones o Rhosllannerchrugog ar achlysur eu dyweddiad. Mae Caren wedi bod yn gweithio yn Yr Wyddgrug ers tro fel un o Ymchwilwyr HTV [illegible] y cemerau. Deallwn y bydda nhw'n priodi ym mis Rhagfyr ac yn gwneud cartref yn Bodffari, Dyffryn Clwyd. Dymuniadau gorau iddyn nhw.
A dymuniadau da hefyd i Merfyn yn ei swydd newydd yn Reading. Wrth ei longyfarch mae'n rhaid inni nodi ein tristwch wrth glywed mai yno y mae'r swydd ac nid yng Nghaerdydd. Ond gobeithiwn y cawn gwmni y ddau hawddgar o'r Lon Werdd am sbel eto.

Llongyfarchiadau i Anya a Hywel Gwynfryn ar enedigaeth eu trydydd mab. Gobeithio bod Sion yn hogyn da ac yn cysgu'r nos i'w fam a'i dad, y bore godwr.

Dylid anfon deunydd ar gyfer rhifyn Tachwedd i
2, Crystal Glen,
Y Waun,
Caerdydd.
- i gyrraedd erbyn Hydref 23ain

CWMNI THEATR GWYNEDD YN CYFLWYNO

LLE MYNNO'R GWYNT



JOHN GWILYM JONES

GYDA STEWART JONES, BERYL WILLIAMS AC ERAILL
CYFARWYDDWR: GREY EVANS

Theatr y Sherman
29-31 Hydref
(0222) 30451

# Y CALENDR

Hydref

12 **Merched y Wawr -**
Cynllunio, printio a gwau gyda Sian Elin Jenkins.

13 **Cymdeithas Cymry'r Eglwysnewydd -**
Neuadd Bethel, Capel y Bedyddwyr, Penlline Rd.
7.30 o'r gloch
Noson dan ofal Mrs. Gwenllian Jones, Llywydd y Gymdeithas.

16 **Clwb Ifor Bach**
Ieuan Wyn Jones, A.S.

17 **Clwb Ifor Bach**
Nosweithiau'r Blewyn Gwyn
8 o'r gloch
'Myndiad am Ddim'

Hydref

22 **Clwb Ifor Bach**
Noson Deyrnged i Harri Webb; Yr Henesiaid; Heather Jones, Ray Smith
Tocynnau yn unig.

23 **Cylch Llyfryddol Caerdydd**
Ystafell G1, Adeilad y Dyniaethau, Coleg y Brifysgol; 7 p.m.
'Ysgrifennu Gwyddonol Cymraeg yn y Ganrif Ddiwethaf' gyda R. Elwyn Hughes.

29-31 **Cwmni Theatr Gwynedd**
Theatr Sherman,
LLE MYNNO'R GWYNT
(John Gwilym Jones)
Tocynnau: Tel. 30451

Tachwedd

9 **Merched y Wawr**
Noson Gwenllian;
Mr. Bob Morris, C.A.D.W.

10 **Cymdeithas Cymry'r Eglwysnewydd**
Neuadd Bethel, Capel y Bedyddwyr, Penlline Rd.,
7.30 p.m.
Mrs. Megan Watkins

20 **Cylch Llyfryddol Caerdydd**
Ystafell G1, Adeilad y Dyniaethau, Coleg y Brifysgol; 7 p.m.;
'Cobler Crefft'
Atgofion ac argraffiadau am gyhoeddi ar gyfer plant gan W.J. Jones

# Clwb Rygbi Ifor Bach

cychwyn digon cymysg a gafwyd i ail dymor Clwb Rygbi Ifor Bach. Collwyd y ddwy gêm gyntaf, ond gafwyd buddugoliaeth haeddiannol yn y drydedd gêm.

Er bod tîm gweddol ifanc gan y Clwb, a diffyg profiad yn sgil hynny, mae egni ac eiddgarwch y chwaraewyr yn gwneud iawn am hynny.

Colli 24-0 yn erbyn Saraseniaid Caerdydd a wnaed yn y gêm gyntaf, a chollwyd yr ail gêm 52-10 yn erbyn tîm cryf Bracla ger Penybont. Sgoriwyd ceisiau i'r clwb gan y Capten Philip James a gan Andrew Scott.
Digon pryderus oedd y tîm cyn trydydd gêm y tymor, ond cafwyd perfformiad cofiadwy wrth i'r Clwb guro Grange Catholics o ddeuddeg pwynt i ddim. Sgoriodd Phil James eto, a chafwyd cais arall gan Martin Grundy. Trosiwyd y ddwy gais gan Hywel James.

Mae pethau'n argoeli'n well ar gyfer gweddill y tymor. Mae wir angen nifer o chwaraewyr i gryfhau'r garfan. Os oes diddordeb gennych, yna cysylltwch â Ceri Morgan - Ffôn 482488.

Hyfforddwr - Ceri Morgan    Capten - Phil James

Tymor 1987 - 1988

| | | | |
|---|---|---|---|
| **MEDI** | | | |
| 19 | Saracens | Parc y Rhath | 3.00 p.m. |
| 26 | Brackla | c. Parc Trelai | 3.00 p.m. |
| **HYDREF** | | | |
| 3 | | Parc Saith Derwen | 3.00 p.m. |
| 10 | Ystum Taf IV | Parc Hailey | 3.00 p.m. |
| 17 | Old Tauntonions | Parc Caedelyn | 3.00 p.m. |
| 24 | Y Wig | c. Mynydd Llandaf I | 2.30 p.m. |
| 31 | C.D.Y.U.C. IV | Parc Diamond | 2.30 p.m. |
| **TACHWEDD** | | | |
| 14 | Llysfaen | c. Meysydd Llandaf 4 | 2.30 p.m. |
| 21 | Gwasanaeth Sifil II | c. Meysydd Llandaf 4 | 2.30 p.m. |
| 28 | Llanisien III | c. Parc Y Rhath | 2.30 p.m. |
| **RHAGFYR** | | | |
| 5 | Saracens | c. Meysydd Llandaf 4 | 2.30 p.m. |
| 12 | Ser Coed Duon | Coed Duon | 2.30 p.m. |
| **IONAWR** | | | |
| 9 | Grange Catholics | c. Parc Trelai 5 | 2.30 p.m. |
| 11 | Ystum Taf IV II | c. Meysydd Llandaf 4 | 2.30 p.m. |
| 23 | Ysbyty'r Eglwys Newydd II | c. Meysydd Llandaf 4 | 2.30 p.m. |
| 30 | Gwasanaeth Sifil II | Heol Sanitorium | 2.30 p.m. |

# Hen Wynebau — Newydd!




Cyhoeddwyd tim rhaglenni S4C fydd yn gyfrifol am gomisiynau'r Sianel i mewn i'r nawdegau.

Y Dirprwy Reolwr Rhaglenni fydd Deryk Williams sydd ar hyn o bryd yn Ddirprwy Olygydd Newyddion a Materion Cyfoes BBC Cymru.
Yn frodor o Gricieth, Gwynedd, graddiodd yn y Gyfraith ym Mhrifysgol Rhydychen cyn ymuno a thim sefydlu Y Dydd yn 1964. Bu'n gweithio ar 'Heddiw' rhwng 1978 a 1982 cyn cychwyn fel Golygydd cyntaf 'Newyddion Saith'. Yn ogystal ysgrifennodd ddramau ar gyfer y radio a sgriptiau adloniant ysgafn. Mae'n briod a chanddo dri o blant ifainc.

Wrth groesawu ei apwyntiad dywedodd Deryk Williams. "Dwi'n edrych ymlaen yn eiddgar at yr her newydd ac at gael gwneud cyfraniad mwy eang i ychwanegu at lwyddiant y Sianel".

Y Comisiynydd newydd fydd Ifan Roberts sydd ar hyn o bryd yn Olygydd 'Hel Straeon'. Bydd yn ymuno a Dilwyn Jones, Pennaeth Rhaglenni'r Gogledd, yn Swyddfa S4C yng Nghaernarfon

Graddiodd mewn Electroneg a Ffiseg yng Nghleg Prifysgol Gogledd Cymru, Bangor, ond trodd at newyddiaduraeth yn fuan wedi gadael y Coleg a bu'n Is-olygydd Y Cymro rhwng 1965 a 1967. Ymunodd a thim Y Dydd yn 1967 ac yna a Radio Cymru yn 1970 lle bu'n gweithio yn yr Adran Newyddion yn ogystal ag ar yr ochr gynhyrchu. Roedd yn un o Sylfaenwyr Cwmni Teledu'r Tir Glas a bu'n gyfrifol am raglenni megis 'Plu Chwithig', 'Hufen a Moch Bach' a 'Helfa Drysor'. Bu'n gyfrifol am 'Hel Straeon' ers mis Hydref 1986. Mae ef a'i wraig a'i blant yn byw ym Mhenrhos-garnedd, Bangor.

Mae'r Is-Gomisiynydd newydd, Mari Beynon Owen, eisoes ar staff S4C fel Cynorthwyydd Comisiynu a Threfnydd Cyhoeddi. Ymunodd a Staff y Sianel ym mis Tachwedd 1985 i weithio ar yr ochr werthu lle bu ei gallu i siarad cryn hanner dwsin o ieithoedd o fudd mawr.

O Fangor yn wreiddiol, astudiodd Ffrangeg ac Eidaleg yng Ngholeg Prifysgol Cymru Aberystwyth a threuliodd gyfnod yn Seland Newydd cyn ymuno a staff Bwrdd Croeso Cymru fel Swyddog Golygyddol yn 1982.

Wrth groesawu'r penodiadau hyn dywedodd Cyfarwyddwr S4C, Owen Edwards, "Bydd y tri yma dan Euryn Ogwen Williams yn cwblhau tim comisiynu cryf a chytbwys i wynebu her y dyfodol".

# Marciau Llawn

YSGOL HYWEL, LLANDAF

Adroddiad Arolygwyr ei Mawrhydi

Dengys yr adroddiad a gyhoeddir heddiw fod gan Ysgol Howell, Llandaf, arweinyddiaeth gref, staff ymrwymedig a disgyblion brwdfrydig sydd yn gweithio mewn awyrgylch gwrtais, academaidd.

Bu Arolygwyr ei Mawrhydi yn ymweld ag Ysgol Howell, ysgol annibynnol a phreswyl fwyaf Cymru, ym mis Mawrth eleni. Archwiliwyd pob agwedd o'r ysgol, uwchradd a chynradd. Cymeradwyir yr adnoddau sydd ar gael yn yr ysgol, ac yn arbennig y Llyfrgell a'r saith labordy gwyddoniaeth, a gwelwyd fod y cwrs addysg yn un diddorol a chytbwys.

Disgrifir y ddarpariaeth sydd ar gael i'r 125 o ferched yn y chweched dosbarth fel un anogol, ac y mae'r disgyblion eu hunain yn ddymunol ac aeddfed ac yn arddangos agwedd gydwybodol tuag at eu gwaith.

Agorwyd yr Ysgol Gynradd, lle y mae 94 o ddisgyblion ar hyn o bryd, ym 1984. Canmolir amcanion yr ysgol i gynorthwyo y disgyblion i gyrraedd safonau uchel mewn darllen, ysgrifennu a mathemateg gan roi iddynt hefyd ddealltwriaeth o gampau dyn a'i amgylchfyd. Ymddengys y plant yn frwd-frydig dros y cwrs addysg eang hwn. Cytuna'r Arolygwyr fod yr hyn sydd wedi ei sefydlu yn darparu sylfaen gadarn i'r adran yn y dyfodol.

Yr oedd yn dda gan y Brif-athrawes, Miss Jill Turner, fod yr Arolygwyr wedi canmol cymaint. Dywed fod argymhellion fel gwella'r cyfleusterau ar gyfer dyblygu ac ati eisoes wedi dechrau. Bydd y darpariaethau yn yr adran Gelf yn cael eu cwblhau cyn bo hir ac ar hyn o bryd, mae llywodraethwyr yr ysgol yn ystyried datblygiadau mawr yn yr adrannau cerddoriaeth a CDT.

Teimlwyd fod ymweliad yr Arolygwyr wedi rhoi cyfle i'r ysgol i ystyried a chofnodi ei darpariaethau a'i swyddogaeth, a bu'r profiad yn un cadarnhaol a buddiol.

Gellir cael copiau o'r Adroddiad o'r Adran Addysg, Y Swyddfa Gymreig, Parc Cathays, Caerdydd. CF1 3NQ

Bu diwedd hapus i stori 'Cipio'r Carped'- diolch i Gwmni Cascade Interiors, Wellfield Rd. Ar ol darllen yr hanes mewn papur lleol, cyflwynodd y perchenog, Mr. Martin Thomas, garped newydd i Gylch Meithrin Radur ac addawodd y Blaid Geidwadol rodd tuag at y Cylch. Felly mae plant bach Radur yn gynnes a chysurus unwaith eto.

# Colofn Shân Emlyn



Yn y mis diwetha' 'ma, mae 'na ddigwyddiad mawr yn hanes ein teulu ni. Ar ymweliad byr a'r Felinheli i gartref Mari, fe gafodd Owen a minnau yn annisgwyl ein syfrdanu dros fygiad o goffi fore Sul, pan ofynodd Emyr am ganiatad i ddyweddïo â Mari. Rhyw hanner awr digon anghysurus oedd hi, a rhyddhad i bawb oedd hi pan oedd y cyfan drosodd. Rhyddhad, ond llawenydd mawr hefyd. Ond ydi hi'n rhyfedd fel mae'r olwyn yn troi? A minnau, amser maith yn ol bellach, wedi treulio pum mlynedd o'm plentyndod yn Y Felinheli, rhyfedd mai "Yn ôl i'r Felinheli rwy'n mynd ...." yw fy hanes heddiw. Ie, "ar lannau'r Fenai dlawd" y bu'r digwyddiad mawr. Pleser pur oedd cydlawenhau a rhieni Emyr, Aled a Nest Roberts, yn enwedig gan ein bod yn gybyddus a'n gilydd ers blynyddoedd. Mawr fu'r dathlu dros ginio hwyliog yng Ngwesty Carreg Bran o dan gysgod Pont y Borth.

Nid wyf yn llawn sylweddoli arwyddocad y digwyddiad eto, er i un ffrind f'atgoffa y golyga hyn fy mod yn debygol o fod yn "fam yng nghyfraith" rhyw ddydd. Dyma ichi syndod! Bydd raid disgyblu a meithrin doethineb i gyflawni'r swydd honno. Ond, dyna hen ddigon o ymdrabaeddu yn fy myd bach i a'r teulu.

Profiadau cymysg a gefais yn ystod y mis. Mynd i Aberystwyth efo cwmni diddan Ruth Bwth Ruth i wrando ar Jan Morris a Dr. Glyn Tegai Hughes yn darlithio yng Nghwrs 'Yr Academi Gymreig' ar eu 'Cymru Hwy'. Dwy ddarlith gofiadwy. Da i ni oedd bod yno a gobeithiaf yn y Gwanwyn gyfweld Jan Morris a hynny yn Y Gymraeg. Dod yn ôl o'r Felinheli ac Aberystwyth a mynd i Theatr y Sherman i weld perfformiad Cwmni Theatr Crwban yn cyflwyno 'Lewis Jones a'i Wladfa'. Edrychais ymlaen at y perfformiad. Wedi'r cwbwl, os nad awn i i'r gynulleidfa, wel, pwy ai? Fe'm siomwyd yn fawr, yn wir, cynhyrfais yn lan. Oni bai am y tywyllwch ac ofni baglu dros risiau serth yr Arena, byddwn wedi cerdded allan ar ôl chwarter awr. Llwyddais yn anghyfforddus i ddal hyd at ddiwedd yr Act Gyntaf. Yn ystod yr egwyl, sylwodd hen ffrind o Ben Llŷn fy mod o dan deimlad, a chwarae teg iddo, fe aeth a mi adref. Cysur i mi oedd bod ei ymateb yntau yn debyg i f'un i. Meddyliwch maint fy nghynhyrfu, fy mod i o bawb yn gadael y theatr gan amddifadu fy hun o dri chwarter awr arall o son am y 'Tir Pell' Gwn fy mod yn or sensitif ac yn llawn rhagfarn ar y pwnc yma, ond yr oedd yna gam ynganu enwau lleoedd, diffyg gwybodaeth a chefndir, a diffyg sensitifrwydd yn yr ymdriniaeth o hanes arwrol rhamantus y fenter o sefydlu Gwladychfa Gymraeg yn Ne America. Gwell imi ymatal a pheidio ymhelaethu gan y sylweddolaf nad wyf, a dweud y lleiaf, yn ddiduedd.

Nid yn unig nad wyf yn ddiduedd yn f'ymateb i bobpeth ond rwyf hefyd mi wn, yn dal yn hynod naif. Yn ddiweddar dangosais rhywbeth a ysgrifenais i ffrind, a'r ymateb a gefais oedd "Mi rwyt ti'n sgwennu'n dda 'sti". "Wyt ti'n meddwl?" medda finna'n frwdfrydig. "Wyt, mae dy lawysgrif di bron fel copperplate"! Diolch fyth bod gan rhywun synnwyr digrifwch, ond ydi hynny'n achubiaeth i ni gyd? Does dim byd gwell na llond bol o chwerthin!

# Y Gystadleuaeth Honno

Y mae Cyngor y Celfyddydau yn cynnal cystadleuaeth ar gyfer ysgrifennu hunangofiannol gan ferched sy'n byw yng Nghymru. Dyma'r tro cyntaf i'r Cyngor drefnu cystadleuaeth o'r math hwn: ymateb yw i'r cynnydd mawr sydd wedi bod yn ddiweddar mewn ysgrifennu a chyhoeddi gan ferched yng Nghymru. Gofynnir i ymgeiswyr lunio ysgrif hunangofiannol rhwng 5,000 a 10,000 o eiriau am unrhyw gyfnod yn eu bywyd. Gall yr ysgrif fod yn Gymraeg neu Saesneg a disgwylir iddi gyflwyno profiad personol mewn ffordd greadigol a fydd yn apelio at y darllennydd cyffredin. Cynigir gwobrau o £500, £300 a £200 yn y ddwy iaith, ac y mae Honno, y Wasg i Fenywod Cymru, yn gobeithio cyhoeddi casgliadau o'r ysgrifau gorau.

Y beirniaid ar gyfer y gystadleuaeth Gymraeg yw'r nofelydd a'r newyddiadurwraig, MEG ELIS, (awdur I'r Gad, Carchar a Cyn Daw'r Gaeaf) a MANON RHYS, sydd wedi golygu chwe chyfrol yn y gyfres hunangofiannol, 'Cyfres y Cewri' ac ysgrifennu nifer o ddramau a sgriptiau i'r teledu. Beirniaid yr ysgrifau Saesneg yw'r nofelydd SIAN JAMES (awdur A Small Country, Another Beginning, Dragons and Roses, a.y.b., a JILL MILLER, a ysgrifennodd You Can't Kill the Spirit: Women in a Welsh Mining Valley a'r nofel, Happy as a Dead Cat.

Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw'r 29ain o Fawrth, 1988.

Ceir manylion pellach oddi wrth yr Adran Lenyddiaeth, Cyngor y Celfyddydau.
Ceir gwybodaeth am wasg Honno oddi wrth Luned Meredith, Tyn y Fedw, Llanuwchllyn, Y Bala, Gwynedd. (06784 255).

# Prentis

**PRENTIS - Cylchgrawn newydd ar gyfer Y Dysgwyr**

Yn sgil yr holl gynnydd yn niferoedd y bobl sy'n bwrw ati i ddysgu'r Gymraeg, mae'n siwr y bydd croeso cynnes i ymddangosiad cylchgrawn cenedlaethol i ddysgwyr. Dyma'r tro cyntaf i ni gael cylchgrawn proffesiynnol ei ddiwyg a'i gynnwys wedi cael ei anelu at y maes hwn. Gwasg Taf, Cwmni o Gaerdydd, yw'r Cyhoeddwyr ac mae'r cylchgrawn yn ymddangos dan nawdd y Cyngor Llyfrau Cymraeg ac Athrofa Gogledd Ddwyrain Cymru.

Mae'n siwr mai'r her mwyaf a wynebai'r tri Golygydd oedd cynhyrchu cylchgrawn a fyddai at ddant dysgwyr o bob safon Yr argraff gyntaf yw bod digon o ddeunydd lled ddiddorol sy'n addas i ddysgwyr sydd wedi cael o leiaf 150 o oriau cyswllt a'r iaith. I ddysgwyr o'r safon yma y mae cydbwysedd derbyniol - trafod pynciau ymarferol megis coginio a sut i osod silff; maes chwaraeon dan ofal sicr Huw Llywelyn Davies; disgrifiad cyffrous o ddechrau Diwrnod Gwaith Arwel Ellis Owen yn Belfast.

Ond o gofio bod nifer sylweddol o ddarpar ddarllenwyr PRENTIS yn ddysgwyr y flwyddyn gyntaf, prin yw'r deunydd sy'n addas ar eu cyfer nhw. Dydy llunio deunydd ar gyfer dechreuwyr ddim yn waith hawdd ond hwyrach y dylai y Golygyddion ystyried rhoi mwy o le a phwyslais i'r sector hwn.

Rwy'n gobeithio hefyd y bydd y tim golygyddol yn cofio bod cefndir a byd diwylliannol nifer helaeth o ddysgwyr yn wahanol i gefndir Cymry Cymraeg Mae diddordebau a bywyd ganddyn nhw sydd y tu allan i'r byd Cymraeg ac mae'n bwysig bod dysgwyr yn meistroli'r iaith a fydd yn eu galluogi nhw i drin a thrafod y profiadau hynny. Fel athrawon ail iaith, rydym yn gobeithio y bydd yr iaith yn allwedd sy'n agor drws i'r byd Cymraeg ond does dim disgwyl i ddysgwyr droi eu cefn ar eu cefndir nhw eu hunain.

Croeso mawr i PRENTIS. Rhaid i ni sicrhau bod y cylchgrawn yn llwyddo fel cyfrwng cenedlaethol.

Linda Moran

Ydych chi'n gallu trefnu "fun run" neu cerdded, trefnu bore coffi neu ffair sborion?

Mae OXFAM eisiau eich help i godi arian am gynlluniau yn y Trydedd Byd.

Os oes diddordeb gennych, cysylltwch â Frank Evans - Caerdydd 757067, estyniad 22.

# I'r Hosan

**ANRHEGION UNIGRYW AR GYFER Y NADOLIG A'R FLWYDDYN NEWYDD**

Am y tro cyntaf erioed yn hanes Canolfan Iaith Genedlaethol Nant Gwrtheyrn, argraffwyd nifer fechan o gardiau Nadolig a Chalendrau Cymraeg.

Bu gwerthiant mawr ar yr eitemau hyn yn ystod yr Eisteddfod Genedlaethol eleni. Yn wir - bu'r gwerthiant mor llwyddiannus nes gorfodi'r Ganolfan i ail-argraffu'r Cardiau Nadolig. Ers yr Eisteddfod mae'r cyflenwad hwnnw hefyd wedi ei werthu ac oherwydd y galw mawr amdanynt mae'r trydydd argraffiad ar y gweill.

Un math o gerdyn sydd ar gael a hwnnw yn ddarlun lliw llawn o bentref Nant Gwrtheyrn o dan haean ysgafn o eira. Tu mewn i'r cerdyn ceir y geiriau 'Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda'.

Gwerthir y cardiau hyn er budd y Ganolfan Iaith Genedlaethol.
Pris : 20c yr un neu 6 am £1.00

Yr un mor boblogaidd yw'r Calendr Cymraeg sy'n cynnwys chwech o luniau du a gwyn yn dangos bywyd y Nant dros ganrif yn ôl ac hefyd yn fwy diweddar. Darparwyd y lluniau gan Aled Griffith, Lluniau Llyn, ac mae'r Calendrau yn gwerthu am £2.00 yr un.

Gellir archebu'r Cardiau Ndolig a'r Calendrau Cymraeg trwy anfon at :
Canolfan Iaith Genedlaethol
Nant Gwrtheyrn,
Llithfaen,
Pwllheli, Gwynedd.
LL53 6PA
Rhif ffon: 075 885 334

Codir tal am gludiant post.

**LLYFR GWERTH EI DDARLLEN**

Cyfrol y cefais gryn flas arni'n ddiweddar yw Robin 'Rengan Glas a'i Debyg gan Williams Owen, Borth y Gest. (Gwasg Tŷ Ar Y Graig). Portreadau o rai o gymeriadau pentref yng ngogledd Sir Fôn a geir yma, y rhan o Gymru lle y treuliodd yr awdur ei lencyndod. Ond yn gwau drwy'r hanesion fe geir hefyd hanes bachgen yn tyfu i fyny yn y pedwar degau mewn cymdogaeth wladaidd a chymdeithas glos, gynnes. Wyth o gymeriadau a bortreadir yma. 'Pwtan dywyll, goesfer ... na chroesodd y Bont fwy na theirgwaith yn ei hoes' yw Wilias (Martha Rachel Williams). 'Monoglot pur, na fedrai ond dau air o'r iaith fain, sef 'No tocing.' Ond er ei bod yn anllythrennog, medrai regi 'yn anhygoel feistraidd, yn rymus, ond yn urddasol barchus yr un pryd.'

Yna, â'r awdur ymlaen i ddisgrifio Robin 'Rengan Glas - y cymeriad a roddodd ei enw i'r gyfrol - fel (stordyn larts ... prin ... bum troedfedd yn ei glocsiau ... yn grwn fel esgob neu belen fagnel ag ôl traul go arw arni. Pen fel tarw, heb na gen na gwddw, a dau lygad mochyn. Yr oedd cefn ei ddwy law fel nyth gialchan, yn sgleinio efo baw wedi hen gramennu. Fo oedd yr oracl lleol, a'r 'Rengan Glas yn Ddelphi'r dyn cyffredin; creadur baldorddus, awdurdodol ei drem, cryptig ei sylwadaeth, o ddoethineb di-gwestiwn, awdur traethiadau anffaeledig .. a'r ambell wên a roddai yn ddim namyn claspia' pres ar gaead arch. Mae'r disgrifiad o'r tŷ ei hun yr un mor gywrain a manwl - o'r pot siambar wedi colli'i glust ar un o risiau'r llofft i'r ddau gloc larwm yn y cwpwrdd gwydr - 'y naill awr a hanner yn fuan a'r llall ugain munud yn ara'.'

Cymeriad tra gwahanol yw Miss Pryse Edwards a allai olrhain ei thras i un o bymtheg llwyth Gwynedd, ac a oedd yn asgwrn cefn y gangen leol o'r mudiad Dirwest.

Nid blodau dynol yw'r cymeriadau i gyd, ychwaith. Mi fydd unrhyw un a fu erioed yn berchen ar gi neu ast yn medru uniaethu'i hunan a pherchennog Fflos .... 'os oedd yr hogyn dan yr ordd weithia' a phe digwyddai iddo bwdu ambell dro efo pawb a phopeth, fe fyddai hi yno'n barod i wrando. Fyddai hi byth yn edrych yn ddu, byth yn digio, byth yn chwilio am fai ... ac yr oedd ei chyfarthiad cwta i ddangos ei bod yn anghymeradwyo anghyfiawnder y foment yn eli ar bob briw.'

Ceir yma bortread o Martha Gres Y Bonc nad oedd 'cweit 'run fath a phawb arall, o Ned Huw Tyddyn Creigia' - 'horwth llydan gydag aeliau trwchus ... a thuedd yn ei glustiau, ynghyd a'i ddannedd, i dyfu at allan... hen lanc mwya' nwydwyllt y lle ...'

Disgynnydd un o'r Gwyddelod a ddaeth trosodd o Iwerddon yn ystod y Newyn Mawr yw Jac Llainsibols ... 'cyl main, broc, a'i wallt fel brws potel. Edrychai bob amser fel pe bai'n bwyta gwellt ei wely. Doedd ganddo na choler ar ei grys na'r un botwm ar ei wasgod. A Meima'r wraig yn hen glustog lonydd ... pladras ddeunaw stôn a oedd wedi treulio gymaint o'i hamser ... yn crimstilio o flaen y tân nes bod ei chrimoga' wedi hen fritho a'i chymala' wedi cyffio'n llwyr.' Rywbryd neu'i gilydd, yr oedd Jac wedi dioddef oddi wrth bob clefyd y gwyddai ' dyn amdano - 'mil a mwy o anwydau, crwits a chnofeydd, gloesyctdod y galon a gwayw'r bonsia, heb sôn am lid y coluddion a dolur rhydd, y bendro ac iselder ysbryd o ganlyniad i wendid ar y sblin. A phan gai lonydd gan y cyfryw rai, doi'r bendduyn a'r llyfrithen, y cam ystum a'r gowt i'w boeni. Ac yr oedd clwyf y marchogion, fel y tlodion, efo fo'n dragwyddol...'

Ond Seimon Llety Llaith oedd prif arwr a chydymaith yr awdur. Dyma fel mae William Owen yn cloi pennod olaf y gyfrol hynod o ddiddan hon:
'Nid oes (dim) o bethau'r wlad, ysgyfarnog ar ei gwal, crafanc y fran yn anwesu haul mis Mawrth, cywion cornchwiglod yn sgrialu drwy'r manfewyn, clochdar troellwr, cri cylfinir, y wennol gynta', trydar petris nad yw fy mhleser heddiw o'u gweld ac o'u clywed yn mynnu, bron yn reddfol, dorri allan yn deyrnged i Seimon Llety Llaith.'

Mewn ysgrif yn Y Faner mae'r awdur yn cyfaddef na allai, pe bae'n cael ei gornelu, ddweud o blaid pwy na phle y byddai'i deyrngarwch - ai i'w fro fabwysiedig, sef Bro'r Eisteddfod eleni neu i 'Fôn, dirion dir.' Tybed, felly, a allwn ddisgwyl cyfrol debyg rywbryd, yn ymwneud ag ardal Borth y Gest? Pe bae hanner mor ddifyr a hon, lle mae hyd yn oed enwau'r lleoedd yn darllen fel barddoniaeth, a lle mae'r idiomau a'r cymariaethau mor lliwgar a chyhyrog, byddai'n wir yn gyfrol gwerth ei chael.

Ray Evans.



# Ceinlinoledd

DOSBARTHIADAU LLAWYSGRIFEN GAIN CEINLINOLEDD

Yn Y Geiriadur Mawr, cyfieithir 'calligraphy' fel 'llawysgrifen (gain)', ond y mae Geiriadur Termau Gwasg y Brifysgol yn cynnig 'ceinlinoledd' sy'n arwain yn rhwydd at 'ceinlinolydd' (calligraphist) ac yna 'ceinlinol' (calligraphic).

Dyna'r gair - sef ceinlinoledd y mae Meic Morgan-Finch yn ei ddefnyddio pan yn trafod y grefft arbennig hon yn y Gymraeg Y trueni yw nad ydy Meic yn cael cyfle i wneud hyn yn y ddinas er iddo fod yn dysgu sawl dosbarth yn ystod y gaeaf.

Am y tro cyntaf erioed fe gynigiwyd dosbarth drwy gyfrwng y Gymraeg yn Llanedeyrn eleni, ond siomedig oedd yr ymateb, a hynny efallai i'w briodoli i'r dewis o ganolfan, ac hefyd am na hysbysebwyd y dosbarth yn y rhestrau a gyhoeddwyd. Ar hyn o bryd y mae Meic yn cynnal gwersi yng Nglan Elai, Y Brodordy, Cathays; Howardian, Ty Celyn a Llandaf. Y mae nifer dda o Gymry Cymraeg ymysg y dysgwyr, a gresyn na fyddai modd dod a hwy i un ganolfan i'w hyfforddi yn Gymraeg.

Ganed Meic yn Aberdar ac yn wir, hyfryd i'w gwrando ar ei lais yn trafod ei grefft yn acen per 'Berdar'. Aeth i Goleg Celf a Chrefft Abertawe ac yna i Reigate am dair blynedd i arbenigo mewn Ceinlinoledd. Mae'n Gymrawd o Gymdeithas yr Ysgrifellwyr (Scribes), a phryd sylweddolir mai dim ond tua thrigain sydd drwy'r byd y mae hyn yn anrhydedd uchel iawn. Tra bydd Meic yn derbyn pob math o gomisynau fel cardiau busnes, hysbysebion, siacedi llyfrau, tystysgrifau ac ati, y mae hefyd yn canolbwyntio ar lenyddiaeth ac yn brysur ar hyn o bryd yn cyflawni arysgrifiad o gywydd Dafydd ap Gwilym 'Merched Llanbadarn' i Eglwys Llanbadarn. Bwriada gynnal Arddangosfa yn y dyfodol o gywyddau wedi eu harysgrifo.

Rhwydd hynt yn y gwaith iddo, gan obeithio y daw y dosbarthiadau yn y Gymraeg i fod yn y dyfodol.



Gwellhad buan i Illtyd Lewis sydd wedi bod yn anhwylus yn ddiweddar.

Gwyl Fihangel
Amgueddfa Werin Cymru

Mae Amgueddfa Werin Sain Ffagan yn hen gyfarwydd bellach a chroesawu ymwelwyr o'r tu hwnt i Glawdd Offa, ond ddydd Sadwrn a dydd Sul olaf mis Medi y Cymry Cymraeg o gefn gwlad a heidiodd i Sain Ffagan i'r Ŵyl Fihangel gynta i'w chynnal yno. Gŵyl y gwladwr oedd hon a llawer iawn o arferion a dulliau cynaeafu'r gorffennol yn ennyn diddordeb mawr os nad hefyd yn deffro atgofion ambell i hen ffarmwr hefyd. Bellach côf plentyn sydd gan rai ohonom a fagwyd yng nghefn gwlad am brysurdeb diwrnod cynaeafu'r ŷd a'r dyrnu wythnosau wedyn pan ddeuai injan stêm ar ei thro a'r cymdogion i gyd yno i roi cymorth. Dyddiau cymdeithasol oedd rhain hefyd a phawb yn edrych ymlaen at y wledd ar ddiwedd y dydd. Yn Sir Benfro à Gorllewin Caerfyrddin, roedd y cwrw cartre wedi ei facsu'n arbennig ar gyfer yr achlusur yn atyniad mawr, ac yn aml bernid mwyniant y dydd yn ôl cryfder y cwrw! Yr oedd y wedd gymdeithasol i'w weld yn amlwg yn yr Ŵyl Fihangel yn Sain Ffagan wrth fynd o un ffermdy i'r llall.

Gwynt y cawl yn berwi mewn crochan ar dan agored mewn un tŷ; pice bach neu'r gacen gri ar y mân mewn tŷ arall; bara mewn popty, caws yng nghegin Cigewent ac wrth gwrs y brag yn arwyddo fod na gwrw'n cael ei facsu a'i yfed.

Yn ogystal yr oedd y wedd gydweithredol hefyd yn amlwg yn y gweithgareddau yn Sain Ffagan. Dyrnu'r ŷd gan wneud rhaffau gwellt ar gyfer toi'r helm, yr is yn cael ei roi i'r ieir i'w bigo, y grawn yn cael ei falu i gynhyrchu blawd, y blawd yn cael ei gymysgu i wneud toes, a'r toes yn cael ei bobi'n fara a bara brith. Roedd hyn oll yn ddrych o gymdeithas hunangynhaliol cefn gwlad unwaith, a dyna'n gwreiddiau ni i gyd.



Yn glo fel petai i Ŵyl hynod Iwyddiannus, roedd yna Wasanaeth Diolchgarwch yng nghapel Penrhiw brynhawn Sul a'r capel wedi ei addurno'n syml â ffrwyth y cynhaeaf. Yno roedd mab i fferm o Ffair Rhos, y Parchedig Dafydd Henry Edwards i'n hatgoffa o draddodiad arall a oedd o bwys i'r gwladwr - wedi'r cludo, y clodfori.

# Llysiau Llesol

Fel merch o'r wlad wedi dod i fyw i'r ddinas ers ychydig o flynyddoedd, meddwl yr oeddwn y bydde'n addysg i chi'r dinasyddion wybod pa fath o feddyginiaethau yr arferid eu defnyddio yng nghefn gwlad ers talwm. Dyma gasgliad o hen feddyginiaethau llysieuol i chi'n defnyddio rhag ofn eich bod yn dioddef o un o'r clefydau! Maent yn llawer mwy effeithiol a rhatach na'r stwffiach sydd i'w cael mewn fferyllfeydd!

Yfed trwyth dail poethion i liniaru poen cefn.
Rhoi eli dail Cwmffri ar yr Eryr.
Yfed diod wermod wen wedi ei ferwi at gur pen.
Yfed diod wermod lwyd at boen stumog.
Defnyddio dwr tatws wedi oeri at draed y sgaldio.
Berwi Rhuddugl Mawrth a rhoi'r drwyth mewn potel bridd gyda phinsied o Giaan, a'i gladdu yn y ddaear am dri diwrnod a thair noson. Yna, yfed y drwyth i wells poenau gwynegon.
Yfed diod jam eirin perthi yn oer neu'n boeth at golli llais
Diod jam cyrens duon at annwyd neu beswch.
Yfed dwr swej (maip) i doddi cerrig yn yr arennau.
Rhwbio dail llorion sydd i'w cael ar lannau afonydd at blorod.
Iro dail Carn yr Ebol i wella clwyf ar y croen.
Rhoi dail riwbob ar fronnau'r fam i atal llaeth ar ol genedigaeth.
Os yw'r galon yn methu, yfwch sudd dant y llew i basio dwr.
Mae 'Digitalus' yn un o'r cyffuriau cryfaf mewn bod, a defnyddir ef i arafu calon dyn. Gwneir ef gyda gwreiddiau bysedd y cwn.
Yfed sudd llysiau'r gingroen i achosi erthyliad.
Defnyddio'r cyffur heroin 'Opium' o'r pabi coch i leddfu poen cancr.
Gratio pupur gwyrdd a'i gymysgu a chlof i wella annwyd a thisian.
Bwyta moron amrwd os yw'r golwg yn ddrwg.

Yfed sudd pys gardd ac ychwanegu halen i gael croen meddal
Torri tafelli o giwcymber a'u rhoi ar y llygaid i dynhau'r croen.
Rhoi bagiau te ar y llygaid, eto i dynhau'r croen.
Ychwanegu mwstard at ddwr poeth a mwydo'r traed yndd.
Stwnsio petalau Melyn Mair a'u hychwanegu at eli niwtral e.e. zinc ac olew castor wedi eu rhwbio ar y croen yn rheolaidd i wella creithiau genedigaeth.
Berwi haidd ac yfed y dwr at grud cymalau.

Gyda llaw, trwyth yw rhoi dwr berwedig ar y llysieyn a'i yfed fel diod. A rhag ofn eich bod yn cadw anifeiliaid -
Rhoi eli pwtris migwyn at gasgliad ar goes ceffyl.
Berwi gwreiddyn tafol, dail poethion a rhisgl criafol i glirio buwch wedi bwrw llo.
Berwi dail Eiddew i ddafad ddim yn clirio ar ol bwrw oen.

Menna Medi

# FFILM

**FULL METAL JACKET**

Fe adawodd Rhyfel Fietnam rhyw graith go ddofn ar gymeriad cenedlaethol yr Unol Daleithiau. Fe'i galwyd yn Rhyfel gwallgof ac os yw'r delweddau cofiadwy a gawsom ohono gan Gyfarwyddwyr ffilmiau dros y deg mlynedd diweddaf yn rhai dilys, ni all rhywun lai na chutuno. Stanley Kubrick yw'r diweddaraf i gyflwyno ei bortread o'r rhyfel ac mae ei enw yn unig yn addewid o sinema diddorol.

Yn Parris Island yn yr Unol Daleithiau mae tri chwarter awr cyntaf y ffilm yn digwydd. Gwelwn y broses o hyfforddi criw o fechgyn ifanc i fod yn Marines. Lee Ermey sy'n actio rhan y 'Drill Instructor' dieflig ac mae ei berfformiad yn un o'r rhai mwyaf cofiadwy a welais ers tro. Mae'n gweiddi a rhegi ar y bechgyn yn ddi-baid ac yn ddidosturi nes eu bod yn cyflawni pob gweithred, waeth pa mor ddibwys y bo hi, yn hollol berffaith. Mae pob un o'r ymarferiadau a ddangosir yn y rhan gyntaf yma o'r ffilm yn aros yn y cof. Fe gofiwn y chantio wrth i'r bechgyn redeg gyda'u reifflau a'u paciau o amgylch y camp, a'r 'pader' o ffyddlondeb i'w reifflau yr oedd pob Marine yn gorfod ei hadrodd pob nos cyn cysgu. A thrwy'r cyfan fe glywn lais Ermey yn bloeddio a rhegi.

Yn ail hanner y ffilm mae'r tri mis dychrynllyd y 'Boot Camp' yn Parris Island drosodd ac mae'r bechgyn yn Fietnam yn gweld eu brwydrau cyntaf. Yn wahanol i 'Platoon' Oliver Stone mae Kubrick yn canolbwyntio ar effaith y fyddin ar y milwyr yn hytrach nag ar effaith y brwydro ei hun. Felly er fod y golygfeydd ymladd yn 'Full Metal Jacket' yn realistig, ni theimlais fel y teimlais yn 'Platoon' fy mod yn edrych ar frwydr go iawn. Dibynnai Kubrick ychydig gormod ar 'slow motion' yn y golygfeydd treisgar hefyd a chan fod angen meistr fel Sam Peckinpah i ddefnyddio y dechneg hon yn llwyddiannus roedd yn tueddu i leihau effaith y ffilm.

Atgasedd Kubrick tuag at y fyddin a'i dulliau sy'n cael ei adlewyrchu yn y ffilm hon. Ystyr 'Full Metal Jacket' medde nhw i mi yw magasin o fwledi byw (o gymharu a'r bwledi ffug ar gyfer ymarfer) ond teimlais fod awgrym yn rhywle yn yr ymadrodd o'r caledwch a'r oerni yr oedd y Mariner yn ceisio ei stampio ar gymeriadau y bechgyn ifanc yma. Yr hanner cyntaf yn Parris Island sy'n aros yn y cof gan mai y rhan hon o'r ffilm sy'n delio yn uniongyrchol â'r thema yma.

Rwy'n sicr y bydd hon yn cael ei chyfri yn un o'r ffilmiau rhyfel mwyaf campus a wnaed

Dafydd Jones.

# SÊR Y DINESYDD

EIRY PALFREY

**VIRGO:** Dylai hwn fod yn fis o gyfathrebu a chysylltu â hen gyfeillion. Danfonwch eich cardiau Nadolig tramor yn gynnar a sgwennwch lythyr at yr holl hen ffrindiau. Bydd dirgelwch ynglyn ag un o'ch cyfeillion neu'ch cymdogion yn cosi'ch cywreinrwydd. Thâl hi ddim i fod yn rhy fusneslyd!
**LIBRA:** Os oes gennych broblem ddyrys gofynnwch i berson hyn eich helpu i'w ddatrys. Mae 'na beryg y byddwch yn canu'ch cloch eich hun braidd yn uchel, wnaiff hi ddim drwg i chi fod yn fwy gwylaidd am dro. Mae digon o arian ar y gorwel i chi, gwariwch yn ofalus. Byddwch garedig wrth eich cymar.
**SCORPIO:** Cymrwch ofal! Mae rhywun yn cynllwynio y tu ol i'ch cefn. Peidiwch a chredu pob peth a glywch. Cadwch eich llygaid a'ch clustiau'n agored a'ch ceg yng nghau. Yn ffodus mae gyda chi'r gallu nawr i fynd yn syth i wraidd bob problem. A fel bonws mi fyddwch mewn hwyliau cariadus a rhamantaidd iawn.
**SAGITARIUS:** Bydd hwn yn fis cymdeithasol a rhamantus iawn. Mae tipyn o'r diafol ynoch yr Hydref yma, felly peidiwch a gwneud dim na ddylech! Cofiwch fod rhaid gweithio yn ogystal a chwarae. Dylai hwn fod yn fis ardderchog i wireddu rhai o'ch hoff gynlluniau yn y gwaith a gosod seiliau i ddyfodol llewyrchus.
**CAPRICORN:** Mae pethau ar i fyny o'r diwedd, ond dydych chi ddim allan o'r cawdel yn hollol eto. Bydd angen i chi wneud penderfyniad anodd yn y cartref nawr, ond ar ôl ei wneud bydd llwyth yn codi o'ch ysgwyddau. Rhaid canolbwyntio ar eich gyrfa bellach ond peidiwch a gadael i'ch emosiynau ymyrryd.
**AQUARIUS:** Rydych yn awyddus i ehangu'ch gorwelion nawr, ewch i ddosbarth nos,neu ewch am daith dramor. Pam lai? Mi fyddwch yn llawn o syniadau gwreiddiol a newydd, a bydd gennych yr ynni a'r brwdfrydedd i'w gwireddu. Ond mi fydd gennych ddigonedd o hunan ddisgyblaeth hefyd.
**PISCES:** Rydych chi'n teimlo'n eitha diog ar hyn o bryd. Fe wnaiff les i chi gael tipyn o hoe, ond peidiwch a diogi gormod chwaith. Mae'n bosib y bydd cyfaill yn eich siomi mewn rhyw ffordd ond peidiwch a cholli gormod o ddagrau dros yr achlysur. Thâl hi ddim i chi orwario, cofiwch fod y Nadolig yn nesau.

**ARIES:** Os bu rhyw sefyllfa yn eich drysu'n lan ers tro, dyma'r mis i gael gwared ohono unwaith ac am byth o'ch bywyd. Byddwch amyneddgar da chi! Nid dyma'r adeg i fod yn fyrbwyll. Os yw rhywun wedi'ch digio, neu'ch brifo, nawr yw'r amser i ddod a'r broblem i'r wyneb, a thrin a thrafod yr oblygiadau.
**TAURUS:** Mae tipyn o genfigen o'ch cwmpas ar hyn o bryd, gwnewch yn siwr nad chi sy'n diodde ohono, gan fod y sêr yn gwenu'n rhadlon iawn arnoch chi nawr. Fe allai fod yn fis rhamantus iawn ond i chi beidio â bod yn rhy hunanol. Efallai daw cariad newydd cyffrous i'ch bywyd.
**GEMINI:** Mi fyddwch yn llawn syniadau newydd a chwyldroadol nawr. Bydd y gallu gennych i berswadio eraill i blygu i'ch ewyllys, ond peidiwch a chymryd mantais o hynny. Byddwch eirwir a gonest. Bydd hwn yn fis ardderchog i ehangu ym myd busnes. Cymrwch olaf, efallai nad ydych yn gweld y byd yn hollol fel y mae.
**CANCER:** Mae hi'n bryd edrych o ddifri ar eich gyrfa. Os nad ydych yn cyflawni'r hyn a ddylech efallai ei bod hi'n bryd newid trywydd. Mi fyddwch yn llawn ynni a brwdfrydedd yn y cartref y mis yma, wrthi'n paentio a phapuro a harddu'ch nyth, a mwynhau pob munud! Efallai byddwch yn symud ty hyd yn oed.
**LEO:** Bydd hwn yn fis cymdeithasol iawn, ac mi fyddwch hefyd yn llawn o allu creadigol ac yn synnu pawb gyda'ch talent. Os daw llwyddiant, mwynhewch e, ond peidiwch a gadael iddo fynd i'ch pen yn ormodol. Mi ddylech dreulio amser gyda'ch teulu, mae eich angen chi arnyn nhw nawr.

---

**Cwrs Dysgu Llydaweg**

Ar ôl profi mor bleserus a llwyddiannus y llynedd, fe fydd Cwrs Llydaweg yn cael ei gynnal unwaith eto eleni gan Adran Allanol y Brifysgol yng Nghaerdydd: y mae'r Cymry, wedi'r cwbl yn cymryd mwy a mwy o ddiddordeb yn iaith a diwylliant Llydaw y dyddiau 'ma.

Fe drefnir gwersi, yn ôl safon y rhai sy'n cymryd rhan, bob nos Fercher rhwng Mis Hydref a Mis Mai y flwyddyn ganlynol.

Ar wahan i'r gwersi, fe drefnir ymweliadau i Lydaw a llawer o nosweithiau cymdeithasol. Does dim rhaid i chi siarad gair o Lydaweg i ymuno a'r hwyl, felly, os oes unrhyw ddiddordeb a chi, cysylltwch â'r athrawes -

Janig Stephens,
Pen y Bryn,
Llan-Faes,
LLANILLTUD FAWR.
CF6 9XR.

YN EISIAU
Person i ddod i'r tŷ i edrych ar ôl dau blentyn ar ôl yr ysgol, ac ambell i fore. Un ferch bump oed, a bachgen chwech oed.
Am fanylion pellach, cysylltwch a : CAERDYDD 25386 - ardal Pontcanna.

## Arddangosfeydd Hydref

**Amgueddfa Genedlaethol Cymru**
**Y Prif Adeilad, Parc Cathays**

'Campweithiau o'r Amgueddfa Genedlaethol'
Arddangosfa o'r darluniau gwychaf a fu ar dain i Japan.

**Ty Turner, Heol Plymouth, Penarth**

'Peintiadau Cyfoes'
Detholiad o weithiau allan o gasgliad yr Amgueddfa;gan fod prinder lle yn y Prif Adeilad, defnyddir Ty Turner dros dro (blwyddyn o leiaf) i ddangos y gweithiau hyn.

**Amgueddfa Diwydiant a Mor Cymru, Heol Bute**

Ym 'Mlwyddyn yr Amgylchedd' yn Ewrop y mae'r Arddangosfa hon yn cynnwys nifer o olygfeydd o Gymru sy'n nodi gwahanol fathau o amgylchedd. Tynnwyd y lluniau o awyrennau a llongau gofod.

**Crefftwyr Celf Cyfoes - Y Prif Adeilad, Parc Cathays**

Gwaith carameg gan Maggie Andrews. Ganed hi yn Y Bontfaen a bu'n fyfyrwraig yng Ngholeg Celf Caerdydd lle graddiodd yn 1975.

**Artist Preswyl, Y Prif Adeilad Parc Cathays**

Y mis hwn y mae Barrie Cook, artist sy'n gweithio yng Nghaerdydd yn dechrau gwaith fel artist preswyl am gyfnod o chwe mis yn yr Amgueddfa. Yn ystod ei arhosiad bydd Barrie Cook yn cyfarfod ag ymwelwyr yn ei stiwdio bob dydd ar wahan i ddydd Sadwrn, Sul a phnawn dydd Mercher. Bob prynhawn Sul rhwng 2.30 a 5.00, y mae croeso i artistiaid amatur i drafod eu gwaith gyda'r artist. Arddangosir y gwaith a gynhyrchwyd ganddo yn ystod y cyfnod. Bu Barrie Cook yn Gymrawd Hyn mewn Celfyddyd Gain yng Ngholeg Celf Caerdydd.

**Oriel, Heol Siarl**

Lliw Summers? Hydref 3-31
Arddangosfa o waith Charles Summers mewn lacer a dyfrliwiau.

**Ffotogallery, Heol Siarl**
'Portread o Bentref' Hydref 3-31
Y pentref yw Shawbury ar y ffin rhwng Cymru a Lloegr.
Ffotograffau gan Marianne Morris

---

Llongyfarchiadau i Huw, mab Mair a'r diweddar Myrfyn Owen ar ei briodas â Rebecca, unig ferch Garth ac Elizabeth George. Priodwyd y ddau gan fam y briodferch a ordeiniwyd fel diacon yn yr Egwys ychydig fisoedd yn ôl. Darllenwyd llith yn y Gymraeg gan Mair, mam Huw, yn ogystal â chanu emyn Cymraeg. Braf medwl i'r Gymraeg atseinio yn Basingstoke. Pob dymuniad da i'r ddau.

### CYMDEITHAS CYN-FYFYRWYR COLEG ABERYSTWYTH

Hoffwn dynnu sylw holl gyn-fyfyrwyr Coleg y Brifysgol, Aberystwyth (hen ac ifanc!) at weithgareddau Cangen leol Undeb y Cyn-fyfyrwyr yn ystod y misoedd nesaf.

Y Llywydd am eleni yw Miss Kay Powell, a luniodd hi a'i Phwyllgor raglen ddiddorol iawn ar ein cyfer.

Cynhelir boreau coffi drwy gydol y flwyddyn ar y Sadwrn cyntaf o bob mis, ag eithrio Mis Ebrill, yn Festri'r Tabernacl, Yr Hayes, o 10.30 hyd ganol dydd. Dewch i fwynhau teisennau o waith cartref a chwmniaeth ddifyr ffrindiau, hen a newydd, ar y Sadyrnau hyn. Cynhelir cinio yn The Inn On The Avenue, Nos Sadwrn, Tachwedd 28ain. Y Gŵr Gwadd fydd Yr Anrhydeddus Syr William Mars-Jones, Llywydd Pwyllgor Cyffredinol Undeb y Cyn-fyfyrwyr am y flwyddyn hon, a Mr. Vernon Pugh, Q.C. Mae'r cinio hyn yn agored i ffrindiau aelodau'r Gymdeithas hefyd, a gorau po gyntaf yr archebir tocynnau. Gellir cael manylion pellach gan Dr. Gwenda Lewis, yr Ysgrifennydd, neu gan Mrs. Maurine Hurley (Tel: 563339), y Trysorydd.

Ar gyfer y flwyddyn newydd, trefnwyd Noson Gymdeithasol (Chwefror 19eg) a Chyfarfod Cyffredinol, ynghyd a chinio bys-a-bawd, yn yr Amgueddfa Werin, Sain Ffagan, (Mai 14eg).


Dydd Sadwrn, Mehefin 18fed, byddwn yn ymweld a Bryste. Yna, yn ystod wythnos yr Eisteddfod Genedlaethol yng Nghasnewydd (ar y Dydd Mercher), gwahoddir aelodau'r holl ganghennau i de prynhawn, lle y bydd cyfle i chi, efallai, weld eto hen gyfeillion nas gwelwyd gennych ers tro byd.

Cynhelir yr Aduniad Blynyddol yn Neuadd Pantycelyn eleni, Ebrill 1af - Ebrill 5ed, pan fydd nifer o gyn-fyfyrwyr o bob rhan o Gymru a Lloegr yn dychwelyd i ail-gyfranogi o gyfaredd Aber.

Trefnwyd taith i Normandi/Llydaw ar gyfer diwedd Mis Mai. Gellir cael manylion am hon gan Mrs. Dilys Lloyd (Tel: 562124).

Ray Evans.


Paentio a phapuro a phob agwedd o waith cynnal a chadw adeiladol, cysyllter â Ieuan Williams. (Ffôn 610957).




## LLYFR

'Cadwyn Cyfeillion' gan Beryl Jones. Pris £2.00.
Cyfres o bortreadau o gyfeillion sy'n rhannu ffydd yr awdures a sydd wed gwneud argraff arni yw'r llyfryn hwn. Daw'r merched dan sylw o bob rhan o'r byd a cheir golwg bersonol, byw o'u bywydau trwy lygaid un a benderfynodd roi'r gorau i'w swydd fel athrawes yn Wrecsam yn 1969 i dreulio chwe blynedd yn yr India. Yno, tra bu'n gweithio ar gynllun i greu canolfan yn Panchgani lle gallai pobl o wahanol genhedloedd ymgynnull i drafod sut i ddod a'u hardaloedd (yn ei geiriau hi) "o dan lywodraeth Duw", y daeth i adnabod Josephine Buhagier, o Malta; Annette Perkous o Seland Newydd; Margaret Tucker o Awstralia a llu o rai eraill.
Mae'r hanesion yn ddifyr, agos-atoch-chi ond yn llawn o frwdfrydedd a diffuantrwydd yr awdures.
Gellid cael y llyfryn yn Oriel neu siop lyfrau Lears ac mae Mrs Nina Hughes, 279 Allensbank Road yn dweud y byddai'n hapus iawn i ateb unrhyw ymholiadau ynglyn a Beryl Jones a'i llyfr.

## LLONGYFARCH




Llun : Gwenan Murphy

Llongyfarchiadau i Nesta Jones, merch Mr a Mrs W J Jones, 46 Heol Crystalwood Y Waun, Caerdydd a Hywel Roberts, mab Mr a Mrs Gwilym Rhys Roberts, Talar Deg, Llanidloes ar achlysur eu priodas ar Fedi 12 yng nghapel China Street, Llanidloes. Byddant yn ymgartrefu yn y Felinheli.


CANOLFAN YR URDD
HEOL CONWY
TREGANNA
CAERDYDD

TAFLEN

LLYFRAU
RECORDIAU
CASETIAU
CARDIAU



Ar Agor
10.00 - 7.00 (5.00 Sad)
Ffoniwch Eich Archeb
CAERDYDD 27530

# Eisteddfod Casnewydd

Annwyl Olygydd,

Yr argraff a gefais i wrth sgwrsio a phobl ar y maes ym Mhorthmadog oedd fod pawb yn dymuno'n dda inni yma yng Nghasnewydd. A gaf i ofyn yn garedig i'ch darllenwyr ein cefnogi'n ymarferol y gaeaf yma trwy fynd ati i gyfansoddi a chystadlu. Ceisiwyd dewis testunau i'r cystadlaethau arferol a fyddai'n apelio at y beirdd a'r llenorion, a chfwyd ymateb ffafriol iddynt o sawl cyfeiriad. Mae'n siwr fod llawer o'r ffyddloniaid wedi prynu'r Rhestr Testunau o'u siop lyfrau leol, ac wedi bwrw iddi eisoes i gyfansoddi. Hoffwn dynnu sylw eraill at rai o'r cystadlaethau ychwanegol sydd yn yr Adran Lenyddiaeth, a fydd, gobeithiwn yn denu cystadleuwyr o'r newydd i gefnogi'r Eisteddfod.

1. Casgliad o gerddi a phenillion o bapur lleol unrhyw fro neu ardal
2. Ysgrif olygyddol, heb fod dros 300 o eiriau, ar gyfer rhifyn Ebrill 1988 o unrhyw bapur bro.
3. Dyddiadur, dros gyfnod byr, person diwaith
4. Beirniadaeth ar raglenni plant S4C
5. Hanes un teulu, neu unigolyn, a ymfudodd o Gymru i Awstralia
6. Cyfrol - Detholiad o nodiadau golygyddol y ddiweddar Jennie Eirian Davies
7. Mynegai i gyfrolau Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfodau Cenedlaethol Cymru yn ystod y ganrif hon.

Byddai gweld cynhaeaf cynnar toreithog ym mis Ebrill 1988 yn galondid garw i'r rhai ohonom sydd wrthi yn ymdrechu ein gorau i drefnu Eisteddfod Genedlaethol lwyddiannus ar gyfer y lluoedd sy'n bwriadu ymweld a Gwent, rhai am y tro cyntaf erioed, ym mis Awst 1988.

Yr eiddoch yn gywir,
<u>CADEIRYDD Y PWYLLGOR LLEN</u>

---

<u>DROS £13,000 MEWN GWOBRAU</u>

Cynigir dros £13,000 mewn gwobrau yn Adran Celf a Crefft Eisteddfod Genedlaethol Casnewydd 1988.

Rhennir yr arian rhwng 34 o gystadlaethau sydd yn amrywio o Bensaerniaeth a Chelfyddyd Gain i Ffotograffiaeth a Chrefftau.

Ceisiwyd rhoi blas lleol ar nifer o'r cystadlaethau, e.e.

Cystadleuaeth i addasu ac ail-ddefnyddio Stordy Hen Gwmni'r Gamlas a'i amgylchedd yng Nglanfa Adam, Casnewydd.

Cystadleuaeth i ddarlunio map hanesyddol o Went mewn lliw llawn.

Cystadleuaeth ddiddorol arall a gynigir gan Bwyllgor Casnewydd yw Cystadleuaeth Gwawdlun - Thema: Yr Enwog

Ymysg y cystadlaethau Crefftau ceir digon at ddant y mwyafrif, gan gynnwys Gwaith Coed, Dylunio ac Adeiladu Model, Crochenwaith, Gorchudd Mur, Caligraffi, Ffasiwn, Gwaith Gwau, Gwehyddu, a Chystadleuaeth ar gyfer yr Anabl.

Mae'r cystadlaethau yn yr Adran Ffotograffiaeth hefyd yn llawn amrywiaeth.

Ni ddylid anghofio chwaith yr Adran Ysgolion ac Ieuenctid, a cheir cyfle fan yma i blant dan 12 oed gystadlu yn yr Eisteddfod.

Llwyddwyd i ddenu arbenigwyr yn eu gwahanol feysydd i feirniadu'r cystadlaethau, hyn yn sicrhau'r safon a ddisgwylir bellach yn Adran Gelf a Chrefft yr Eisteddfod Genedlaethol.

Os hoffech fanylion llawn am gystadlaethau Adran Celf a Chrefft yr Eisteddfod, cysylltwch a :

E. Heather Davies,
Swyddog Celf a Chrefft,
Swyddfa'r Eisteddfod,
Moderator Wharf,
Rhodfa'r Brenin,
CASNEWYDD, Gwent.
NP9 1EX.
Ffon: 0633-54917

---

<u>LOGO SY'N OGLEISIO !</u>

BLAS CAS yw'r enw a ddewiswyd gan aelodau Is-bwyllgor Ieuenctid Eisteddfod Genedlaethol Casnewydd fel enw ar gyfer eu pabell ar Faes yr Eisteddfod.

Lluniwyd y Logo gan Mark Rees Jones, aelod o'r Is-bwyllgor, sy'n frodor o Lanfairpwll, Ynys Mon.

Dilynodd Mark gwrs B.A. mewn graffeg yng Ngholeg Celf Casnewydd, ac mae'n gweithio ar hyn o bryd fel dylunydd graffeg yng Nghaerllion.

Sylfaenwyd y Logo ar arwyddlun swyddogol yr Eisteddfod, ac yn ol Mark "mae'n cymryd safbwynt mwy gogleisiol".

Mae'r Pwyllgor wrthi'n ddyfal ar hyn o bryd yn trefnu gweithgareddau amrywiol ar gyfer wythnos yr Eisteddfod, ac yn ychwanegol at y gwaith arferol, mae trefniadau ar y gweill i gynnal Cyngerdd Roc ym Mhafiliwn yr Eisteddfod, yn ystod wythnos yr Eisteddfod a hynny am 7.30 o'r gloch.

Am fanylion pellach ynglyn â gweithgareddau Blas Cas, neu unrhyw weithgareddau Eisteddfodol arall, cysyllter a -

J. Idris Evans, Trefnydd,
Swyddfa'r Eisteddfod,
Moderator Wharf,
Rhodfa'r Brenin,
CASNEWYDD, Gwent. NP9 1EX
(0633 - 54917)

---

<u>CYSTADLEUAETH I HOLL DDARLLENWYR PAPURAU BRO CYMRU</u>

<u>GWOBR</u>: Un tocyn i unrhyw un o weithgareddau swyddogol Eisteddfod Genedlaethol Casnewydd.

1. Beth yw'r enw ar Bwyllgor Ieuenctid Eisteddfod Genedlaethol Casnewydd?

   ____________________

2. Ym mha le mae Maes Eisteddfod Genedlaethol Casnewydd?

   ____________________

3. Ym mha flwyddyn,fu'r Eisteddfod Genedlaethol yng Nghasnewydd ddiwethaf?

   ____________________

4. Pwy gyflwynodd y Corn Hirlas presennol i'r Eisteddfod?

   ____________________

5. Beth yw enw Gorseddol Archdderwydd newydd Cymru?

   ____________________

Atebion erbyn dydd Llun, 9 Tachwedd, 1987 i :

Cwis Papurau Bro,
Swyddfa'r Eisteddfod,
Moderator Wharf,
Rhodfa'r Brenin, CASNEWYDD

ENW ........................

CYFEIRIAD ..................

............................

............................

Rhif ffon: .................


**Hunangyflogedig?**
**Heb Bensiwn?**


Ffôn: Caerdydd (0222) 562816

**LYNN JONES**

30, Highfields,
Llandâf,
Caerdydd, CF5 2QB

**BUDDSODDIADAU**
**YSWIRIANT BYWYD**
**PENSIYNAU**

# Y CROESAIR ~ Ap Lewsyn    RHIF 75



**Ar Draws:**

1. Addefodd fod Banc y Ceffyl Du ar chwal ar ol colli'r cel (7)
5. Sant arall yn gyfrifol am y rhan fwyaf o'r anhrefn. (7)
10. Mae gan hwn dir yng nghyffiniau Llanwrtyd (4)
11. Nid yw ar gael gan y cyhoeddwyr. (4,1,5)
12. Ysbrydiaeth amryw o feirdd yn nwylo'r gyrrwr? (6)
13. Daw swn galar o Wyl Ifan (8)
14. Cyflwr o lusgo? (2,2,3,2)
16. Croesfan peryglus i Enlli (1,4)
17. Dadl addysgiadol yn cynnig cyfle am ail gnwd (5)
19. Naturiaethwyr sy'n gallu defnyddio radio yn dda (9)
23. Ymdrechwr glew (8)
24. Llawer gormod o adnoddau ond yn cael defnyddio llai na'u hanner --- -- chwerw iawn (6)
26. Ai dyma sy'n digwydd pan fyddwch yn "rhoi eich troed ynddo", sef pentwr o dail camel? (10)
27. Mesurau felly sy'n addas i awdl (4)
28. Cewch eich dychryn wrth rwydo A.S. yn drwsgl (7)
29. Ymnyddu yn droellog (7)

**I Lawr:**

2. "------- ydych chwi", oedd ffug-gyhuddiad Joseff. (7)
3. Un o A i G. (5)
4. Bu arogl o gwmpas pan oedd y dail yn glasu....... (7)
6. .......a dyma a wnaethoch (6)
7. Camsyniad fydd amseru yn rheolaidd (9)
8. Sain efydd? (7)
9. Heb ddymuno agosatrwydd (4,1,3,5)
15. Cydymaith chwareus Morus y Gwynt (4,1,4)
18. Un sy'n macsu (7)
20. Mynd o gwmpas (7)
21. Y gof oedd yn gwneud ein cartrefi cynharaf (7)
22. Byth (6)
25. Taflegryn ar gyfer Nos Tan Gwyllt (5)

**Datrysiad Rhif 74**

Ar Draws: 1. ARCHEBWYD; 5. HWYAID; 9. CREITHIOG; 10. CLYWIR; 12. NOETHNI; 13. ARYSGRIF; 15. RHAGARWEINIAD 18. DOES DIM DEWIS; 23.YSGYMUNO 24. HAWLIO; 26. AMRANT; 27. CROCBRIS; 28. SYCHDIR; 29. CROCHENYDD;

I Lawr: 1. AMCANU; 2. CHWECHED 3. BETHANIA; 4. YNOM; 6. WYLASAI; 7. ANWARAIDD+ 8. DIRIFEDI; 11. BRAWDDEG; 14. PALMANT; 16. EDMYGAIS; 17. DENGARWCH; 19. DYMUNAI; 20. IFANCACH; 21. CLORON; 22. CORSYDD; 25. DROR neu DRAR

**Cystadleuaeth Rhif 74**

Derbyniwyd wyth datrysiad cywir, sef oddi wrth Gwenllian Gwyn Jones, Yr Eglwysnewydd; B.T., Cyncoed; Marged Davies, Llandaf; Shan, Cyncoed; J. Lloyd, Geryllan; Hefin Tomos, Y Rhath; S. Evans, Cathays; ac un ymgais heb nac enw na chyfeiriad, ond fy mod wedi llwyddo i ddarllen y gair Shropshire o gwmpas y marc-ost post ar yr amlen. Yr wyf wedi manylu ar yr olaf am mai dyna'r un a ddaeth o'r het. Felly, os oes yna ddarllenydd o'r Gororau, neu efallai o Bowys a anfonodd y datrysiad dienw i mewn, anfoned ei enw a'i gyfeiriad at Ap Lewsyn, 13 Rannoch Drive, Caerdydd, ar unwaith i ni gael cydnabod ei lwyddiant.

**Cystadleuaeth Rhif 75**

Fel arfer, eich enw a'ch cyfeiriad ar ymyl y croesair, i gyrraedd Ap Lewsyn, 13 Rannoch Drive, Cyncoed erbyn Hydref 25ain, os gwelwch yn dda.

## PYTIAU

Dymunwn yn dda i Catrin Griffith, merch Gwilym ac Elan Griffith o Gasnewydd ar ei hantur yn treulio blwyddyn yn China. Efallai y cawn beth o'i hanes yn 'Y Dinesydd' bob yn hyn a hyn.

Carem dynnu sylw ein darllenwyr bod Banc National Westminster yng nghanol y dre yn darparu cownter Cymraeg. Hyd yma, ychydig o alw fu am y gwasanaeth; trueni fyddai gorfod dileu'r gwasanaeth o ddiffyg cefnogaeth y cwsmeriaid Cymraeg.

Chwith gan ddarllenwyr 'Y Dinesydd' bod y Parchedig Cynwil Williams wedi gorfod cael llawdriniaeth unwaith eto yn yr ysbyty. Dymunwn iachad llwyr iddo'r tro yma.

Dymuniadau da am wellhad i John Wood, 1 Llyn Close, Lakeside, sydd wedi treulio peth amser yn yr ysbyty.

Diolch o galon i Gaenor Maddocks am ei chyfraniad hael i'r Dinesydd ar ran Merched y Wawr Caerdydd.

Cydymdeimlwn a theulu Glyndwr Owen, Y Barri, ar eu profedigaeth o golli mam a mamgu Gethin ac Angharad.

Cydymdeimlwn yn ddwys a Wyn Thomas, y pensaer, a'i deulu ar eu profedigaeth yn ddiweddar o golli mam.

Dymuniadau da i Nia Rhosier sydd erbyn hyn wedi ymgartrefu yn Llangollen. Ei chyfeiriad newydd yw 2 Oak Mews, Heol y Dderwen, Llangollen LL20 8RP Clwyd. Rhif ffon 0978 860835. Dyma'r cyfeiriad i gysylltu a hi ynglyn a gweithgareddau Cymdeithas y Cymod. Diolch iddi hefyd am ei chyfraniad i goffrau'r Dinesydd.